EDT2 12-04(p1)-w

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Dyddiad : Dydd Iau, 15 Goreffenaf 2004
Amser : 2.00pm i 5.15pm
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Cyflwyniad i Potentia, rhaglen cefnogaeth busnes sy'n annog pobl o grwpiau a dangynrychiolir i sefydlu eu busnesau eu hunain

1. Cyflwyniad

1.1 "Mae anweithgarwch economaidd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio pobl o oedran gwaith nad ydynt mewn gwaith nac yn ddi-waith. Mewn geiriau eraill, nid ydynt yn gweithio, dim yn chwilio am waith a/neu heb fod ar gael ar gyfer gwaith

1.2 Gofynnodd Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Potentia am wybodaeth am y rhaglen a disgrifio sut mae'n gweithio gyda'i gleientiaid o grwpiau a dangynrychiolir i ystyried sefydlu eu busnes eu hunain.

2. Cefndir Potentia – Y Sail Tystiolaeth

2.1 Comisiynwyd Newidiem ym mis Rhagfyr 2000 i gynnal prosiect ymchwil i fynd i'r afael â diffyg gwybodaeth gynhwysfawr am fusnesau sydd newydd sefydlu yng Nghymru. Dynodwyd y dilynol:

- Pobl anabl
- Rhieni unigol

- Pobl aeddfed
- Pobl ifanc
- Lleiafrifoedd ethnig
- Siaradwyr Cymraeg
- Menywod
- Di-waith neu anweithgar

2.2 Daeth yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2001 i'r casgliad fod y rhwystrau cyffredin a gofynion cefnogaeth busnes grwpiau a dangynrychiolir wrth gychwyn a thyfu busnes yn cynnwys:-

Rhwystrau Mewnol Cyffredin

- Diffyg sgiliau perthnasol a phrofiad busnes

- Amgylchiadau personol yn eu cyfyngu yn arbennig ddiffyg gofal plant hyblyg, fforddiadwy ac ansawdd uchel ar gyfer rhieni hunan-gyflogedig

- Diffyg hygrededd o fewn yr amgylchedd busnes

- Diffyg hyder personol a busnes

- Tueddiad i fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau neu grantiau

- Goresgyn yr agweddau a thybiaethau yn nhermau stereoteipio a gwahaniaethau diwylliannol

Rhwystrau Allanol Cyffredin

- Mynediad i gyllid yw'r prif ffactor sy'n rhwystro grwpiau a dangynrychiolir rhag sefydlu a thyfu busnes, yn aml oherwydd eu diffyg asedau cyfalaf a hanes o brofiad i sicrhau cyllid

- Mynediad i adeiladau busnes priodol ac am bris rhesymol, yn arbennig i'r rhai sy'n dymuno tyfu neu symud ymaith o'u sylfaen cartref.

- Mynediad i wybodaeth, cefnogaeth a chyngor busnes, yn arbennig pan yn delio a chyrchu'r llu o asiantau busnes.

- Amodau economaidd ac isadeiledd lleol, yn arbennig i grwpiau mewn ardaloedd gwledig ac economaidd ddifreintiedig.

2.3 Dynododd yr ymchwil dilynol fod rhai grwpiau mewn cymdeithas yn wynebu mwy o rwystrau na'r rhan fwyaf pan yn sefydlu mewn busnes ac angen cefnogaeth ychwanegol yn y camau cynnar. Sefydlwyd prosiect Potentia i annog pobl o chwe grwp a dangynrychiolir i ystyried sefydlu eu busnesau eu hunain. Caiff y prosiect ei reoli gan y WDA a chyflwynir ei wasanaeth gan sefydliadau arbenigol sy'n deall anghenion eu grwpiau neilltuol. Mae'r sefydliadau partner a'u grwpiau targed fel sy'n dilyn:

Anabledd Cymru	Pobl Anabl
Chwarae Teg	Rhieni Unigol (amcan 1)
Rhaglen Cefnogaeth Busnes Ethnig	Lleiafrifoedd Ethnig
Menter a Busnes	Siaradwyr Cymraeg
Prime Cymru	Pobl Aeddfed 50>
Ymddiriedolaeth y Tywysog, Cymru	Pobl Ifanc <30

2.4 Mae Potentia yn derbyn cyllid Ewropeaidd ac fe'i sefydlwyd yn ardal Amcan 1 Cymru yn Ebrill 2001. Dechreuodd gael ei gyflwyno mewn ardaloedd y tu allan i Amcan 1 sawl mis yn ddiweddarach. Caiff ei chwaer brosiect, Menter Menywod Cymru, ei redeg gan Chwarae Teg a darparu gwasanaeth tebyg ar gyfer menywod.

2.5 Mae mwyafrif grwp targed Potentia hefyd yn cynrychioli cyfran uwch o'r rhai sydd debycaf o gael eu disgrifio fel economaidd anweithgar.

"Mae anweithgarwch wedi parhau'n gyffredin oherwydd nad yw'r rhai ar fudd-daliadau ac anweithgar yn gyffredinol yn chwilio am waith (er yr hoffai tua traean weithio) a gall y cymhellion ariannol fod yn wannach i'r rhai ar fudd-daliadau cyfradd uwch". (Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth/Papur 3)

2.6 Caiff y dystiolaeth ei chyfnerthu gan yr ymchwil gweithredu a wnaethpwyd gan Cyfenter. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 1,400 o bobl sydd wedi sefydlu busnes yn ddiweddar a 600 arall oedd yn y broses o sefydlu. Roedd y 600 yn cynnwys nifer nad oedd mewn gwaith, dynodwyd fod y ffactorau oedd yn rhwystro pobl rhag cychwyn busnes fel a ganlyn:

Ffactorau yn rhwystro pobl yn derbyn budd-daliadau rhag cychwyn busnes:

	Nifer ymatebwyr	Canran
Diffyg cyllid	123	56%
Diffyg hyder	49	22%
Dibynnu ar fudd-daliadau	47	21%
Risg ariannol	39	18%
Heb dderbyn y gefnogaeth gywir	37	17%
Diffyg profiad	34	15%
Pryderon am gadw'r busnes i fynd	27	12%
Cyfrifoldebau gofal	20	9%
Pryderon am dyfu'r busnes	20	9%
Diffyg gofal plant fforddiadwy a dibynadwy	17	8%

2.7 Cynhaliodd y prosiect tua 200 o gyfweliadau manwl a ganiataodd i'r mater gael ei esbonio yn ddyfnach.

Islaw mae rhai o'r materion a ddynododd ymatebwyr sy'n derbyn budd-daliadau fel ffactorau sy'n achosi rhwystr

neu yn eu hatal rhag cychwyn eu busnes eu hunain, yn glir yn eu mysg mai colli budd-daliadau a fu'n destun adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Cyfenter.

"Dwi ddim mewn gwirionedd wedi goresgyn unrhyw un o fy mhryderon. Rwy'n dal i boeni am golli fy mudd-daliadau a pheidio cael digon o arian yn y dechrau pan fyddaf yn cychwyn fy musnes fy hun."
(Cyn-cychwyn, Gwryw, 31-40, Person Anabl

"Mae'n achos pryder mawr i fynd o fudd-daliadau i fod yn hunan-gyflogedig, ond mae'n rhaid i chi gymryd y risg on'd oes."
(Cyn-cychwyn, Menyw, 18-30, Rhiant Unigol, Siarad Cymraeg)

"Mae'n broblem fawr. Mae budd-dal tai yn fudd-dal anuniongyrchol sy'n golygu y caiff ei dalu'n syth i fy nghyfrif. Dywedodd y cyfrifydd er y medrwn ennill peth arian o fy musnes y medrwn golli mwy byth drwy fudd-daliadau."
(Cyn-cychwyn, Menyw, Person Anabl)

"Doedd dim unrhyw sicrwydd ar gyfer mynd yn hunan-gyflogedig. Dywedwyd wrthyf y byddai'n rhaid i mi wneud y busnes yn sicr neu ni fedrwn ddod yn ôl ar fy lwfans anabledd."
(Cyn-cychwyn, Benyw, 50+)

"Dwi ddim wedi gofyn am gyngor oherwydd fy mod yn poeni y byddant yn mynd â'r budd-daliadau i ffwrdd oddi arnaf."
(Cyn-cychwyn, Benyw,31-40, Person Anabl)

2.8 Mae diffyg hyder a phryderon am y magl budd-daliadau yn sylweddol iawn, ac yn y cyd-destun hwn mae Potentia yn anelu i weithio gyda'i gleientiaid i gynyddu eu hyder, dynodi sgiliau trosglwyddadwy a'u helpu i asesu os yw eu syniad busnes yn hyfyw a realistig.

3. Cyflwyno Potentia

3.1 Hyd ddiwedd Mawrth 2004 roedd Potentia wedi cynorthwyo 6,229 o unigolion, a arweiniodd at sefydlu 2,005 o fusnesau a chreu cyfanswm o 3,951 swydd.

3.2 Yn ystod Cam 1 y prosiect, Ebrill 2001 – Rhagfyr 2003, mae Potentia wedi hyrwyddo entrepreneuriaeth i unigolion ac wedi helpu i gynyddu gallu'r prif ffrwd i weithio gyda phobl o gefndiroedd amrywiol.

3.3 Mae Potentia yn datblygu gallu eu cleientiaid i gymryd y camau dechreuol i hunan-gyflogaeth. Mae gweithgareddau partner Potentia yn cynnwys y dilynol:-

- Recriwtio a hyrwyddo cefnogaeth busnes ymysg y grwp neilltuol a dangynrychiolir

- Darparu cefnogaeth datblygu personol a thechnegau megis gweithdai adeiladu hyder, ymchwilio sesiynau menter a chyngor un-i-un

- Cefnogi'r cleient i ystyried manteision ac anfanteision hunan-gyflogaeth yn eu hamgylchiadau neilltuol eu hunain, yn cynnwys unigolion ar fudd-daliadau

- Rhoi help a chefnogaeth i ddethol a diffinio syniad busnes cleient

- Rhoi help a chefnogaeth gyda chamau cynnar ymchwil a datblygu'r syniad busnes hwnnw

- Lle'n briodol, cyflwyno'r cleient i'r prif ffrwd i gyrchu cefnogaeth cychwyn busnes

- Gweithio gyda'r prif ffrwd i roi unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gall y cleient fod ei angen ac i sicrhau y caiff anghenion y cleientiaid eu diwallu'n llawn

- Rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i'r cleient pan yn cyrchu cefnogaeth gan asiantaethau llywodraeth

3.4 Yn ychwanegol at y camau gweithredu cadarnhaol hyn, yn ystod Cam II (1.1.04-31.12.06) bydd Potentia yn parhau gyda'i gylch gorchwyl prif ffrydio i sicrhau fod sefydliadau cefnogaeth busnes prif ffrwd yn dod yn fwy cynhwysol o grwpiau targed Potentia. Bydd y prosiect yn helpu darparwyr prif ffrwd presennol i roi cefnogaeth gryfach i'r

rhai o gefndiroedd gwahanol sy'n dymuno cychwyn eu busnesau drwy'r gweithgareddau dilynol:

- Parhau i gyflwyno'r Rhaglen Hyfforddiant Amrywiaeth, a gyflwynir drwy chwe modiwl hanner diwrnod gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth i alluogi staff sy'n gweithio o fewn y maes cefnogaeth busnes, yn cynnwys darparwyr cefnogaeth busnes y WDA, awdurdodau lleol, banciau, y sector preifat a sefydliadau eraill, i gynnig gwasanaeth pwrpasol i amrediad ehangach o gleientiaid.

- Darparu Cefnogaeth Ymgynghoriaeth Amrywiol i bob sefydliad prif ffrwd i'w cefnogi i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Amrywiaeth a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb a chynhwysiant o fewn eu darpariaeth gwasanaeth.

- Gweithio'n agos gyda darparwyr cefnogaeth busnes prif ffrwd wrth ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau cyd-farchnata wedi eu hanelu at grwpiau a dangynrychiolir

- Darparu gwybodaeth parthed materion amrywiaeth yn gysylltiedig â chefnogaeth busnes drwy wefan Potentia ar ei newydd wedd (i'w chwblhau yn Awst 2004) a thrwy ei gylchlythyr chwarterol Release. Bydd y ddau gyfrwng yn cynnwys enghreifftiau arfer da, adran 'sut i' ar gyfathrebu gyda grwpiau amrywiol ac astudiaethau achos.

4. Gweithio gyda phrosiectau a sefydliadau eraill

4.1 Mae partneriaid Potentia yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau a sefydliadau ategol eraill.

Mae partneriaid yn gweithio'n agos gyda Llygad Busnes, y Darparwyr Cefnogaeth Busnes newydd yn ogystal â banciau a phobl busnes lleol megis cyfrifwyr a chyfreithwyr i sicrhau fod cleientiaid yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol wrth ystyried cychwyn eu busnes eu hunain.

4.2 Mae partneriaid hefyd yn gweithio gydag asiantaethau'r llywodraeth megis Canolfan Byd Gwaith, Brocer Cymru a Mynediad i Waith, amrediad eang o sefydliadau elusennol megis Ymddiriedolaeth Shaw a'r Canolfannau Cynghori sy'n cefnogi cefnogaeth benodol i'r rhai ar fudd-daliadau. Mae gan bartneriaid berthynas waith ardderchog gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru drwy'r Prosiect Ymarfer Menter a Menter a Busnes drwy'r cynllun Blas ar Fenter.

4.3 Yr ymgyrch 'gallwch' ddiweddar sy'n annog pobl i feddwl am sefydlu eu busnes eu hunain yn targedu oedolion ifanc yn y grwp oedran 25-35, ac mae'r ymgyrch bresennol wedi ei hanelu at fenywod. Mae Potentia ynghyd â darparwyr cyn-cychwyn ac ôl-cychwyn yn gweithio'n agos gyda'r ymgyrch i sicrhau fod y rhai sy'n ymateb i'r hysbysebion yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol tra'n ystyried sefydlu eu menter fusnes eu hunain.

5. Astudiaethau Achos Cleientiaid

5.1 Er fod y mwyafrif o fusnesau a sefydlir yn dilyn cefnogaeth gan Potentia yn tueddu i fod yn fusnesau ffordd o fyw, mae rhai mentrau yn datblygu yn fusnesau twf a chafodd nifer ohonynt eu sefydlu gan bobl a oedd yn derbyn budd-daliadau gwladol cyn cychwyn mewn busnes.

5.2 Amgaeaf astudiaethau achos gan bartneriaid Potentia.

6. Casgliad

6.1 Mae'r uchod yn rhoi peth gwybodaeth gefndir am raglen Potentia. Mae partneriaid wrthi'n gweithio gydag amrediad eang o sefydliadau yn y gymuned i sicrhau fod y rhaglen yn cynnig cefnogaeth i'w gynulleidfa darged beth bynnag eu cefndir. Un o'r cynlluniau diweddaraf yw gweithio gyda'r gymuned ar stad y Gurnos ym Merthyr Tudful i godi ymwybyddiaetho hunan-gyflogaeth ac annog pobl leol i sefydlu eu busnesau eu hunain.

Bydd yr unigolion dilynol yn cynrychioli Potentia yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ddydd Iau 15 Gorffennaf 2004.

Iain Willox – Cyfarwyddwr Cefnogaeth Menter, WDA
Bu Iain yn ymwneud â Potentia o'r cychwyn cyntaf, a gall drafod y prosiect yng nghyswllt cynlluniau cefnogaeth busnes eraill.

Jon Luxton - Cynghorydd cleient llawrydd i Potentia drwy Anabledd Cymru. Mae Jon yn gynghorydd cleientiaid profiadol sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio gyda chleientiaid anabl ar bob agwedd o gefnogaeth cyn cychwyn, yn cynghori cleientiaid ar fudd-daliadau. Mae hefyd yn cyflwyno modiwl anabledd yr hyfforddiant amrywiaeth.

Siân Gale – Rheolydd Prosiect Potentia
Bu Sian yn gweithio ar y prosiect am bedwar mis yn llanw dros gyfnod mamolaeth. Gall ateb cwestiynau yn uniongyrchol am y prosiect. Mae'n siarad Cymraeg yn rhugl a gall ymateb yn Gymraeg.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ar yr uchod cysylltwch â:-

Sian Gale
Rheolydd Prosiect Potentia

029 2082 8715
sian.gale@wda.co.uk

Amg. astudiaethau achos gan gleientiaid

WDA
YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 2
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 2
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Potentia - Astudiaeth Achos Prime Cymru

Mae ysgrifennydd sydd wedi troi'n frodwraig a gweithiwr coed a drodd yn fardd yn cynhyrchu rhywbeth unigryw yng Ngorllewin Cymru. Mae Mike a Wendy Gaskell wedi sefydlu busnes cartref 'Courting Cavebear' yn creu rhoddion personol gyda naws barddonol.

Penderfynodd y cwpl fynd i fusnes drostynt eu hunain ar ôl ei chael yn anodd i ddod o hyd i swyddi. 'Roeddem ill dau ar fudd-dal anallu oherwydd salwch tymor-hir heb unrhyw swyddi ar y gorwel,' meddai Mike. 'Gwnaethom felly gysylltu â Prime Cymru yn Llanymddyfri, sy'n helpu pobl dros 50 oed i sefydlu mewn busnes. Cawsom gyngor ac anogaeth gan Dave Ward, y cynghorydd cleientiaid yn yr ardal a rhoddodd gysylltiadau i ni i asiantaethau megis Menter Ddiwylliannol, Menter Menywod Cymru (a gaiff ei reoli gan Chwarae Teg), brocer Cymru a'r cynghorydd cyflogaeth anabledd lleol. Rhoddodd hynny sylfaen gadarn i ni lansio ohono ac mae gennym bellach ein busnes ein hunan, ein gwefan ac mae gwerthiant yn dechrau cynyddu,' ychwanegodd Mike.

Mae'r nwyddau a gynhyrchiant yn cynnwys cardiau cyfarch gyda brodwaith arnynt, clustogau modrwy, clustogau enw a thedi bêrs i'w casglu. Fe'u cynlluniwyd gan Wendy a'u gwneud gyda deunyddiau traddodiadol fel gwlân geifr, mae'r tedi bêrs yn cael eu defnyddio fel teganau ar gyfer plant ac yn bethau i oedolion eu casglu. Unwaith mae tedi bêr wedi'i wneud a chael enw, mae Mike yn ei phersonoleiddio drwy ysgrifennu cerdd amdani.

Mae gan y cwpl, o Dalgarreg ger Landysul, gyfran yn allfan adwerthu yn Nhywyn, sy'n fenter gydweithredol gyda gweithwyr crefft arall fel y cedwir y costau mor isel ag sydd modd a sicrheir cyswllt agos a phersonol gyda chwsmeriaid.

I gael gwybodaeth bellach ar Courting Cavebears, ffoner 01545 581036 neu e-bost: wendyembears@ukonline.co.uk

Kutemba Enterprises

Mae mam a gweithwraig elusennol wirfoddol a gymerodd amser allan i ofalu am ei phlant wedi profi nad yw byth yn rhy hwyr i gyflawni uchelgais busnes.

Agorodd Kutemba Robertson, 38, o Abertawe, siop i hyrwyddo Masnach Deg, sefydliad sy'n cefnogi hawliau cynhyrchwyr trydydd byd yn erbyn prynwyr rhyngwladol, er iddi wynebu llu o rwystrau.

Graddiodd Kutemba mewn Datblygu, Cynllunio a Rheolaeth Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe a bu'n gweithio gyda chymunedau yn Zambia yn ystod ei hastudiaethau ym Mhrifysgol Abertawe. Treuliodd ddwy flynedd arall yn ymchwilio'r farchnad ac yna penderfynodd ddechrau busnes yn gwerthu nwyddau o bob rhan o'r byd.

Roedd Kutemba angen cyllid, ond nid oedd ganddi raddiad credyd ar ôl treulio blynyddoedd yn derbyn budd-daliadau. Gofynnodd un cyfrifydd iddi am £1,000 ymlaen llaw am gyngor – amhosibl i Kutemba ar y pryd.

Rhoddodd y Rhaglen Cefnogaeth Busnes Ethnig, rhan o brosiect Potentia, gyngor a chefnogaeth ddi-dâl i roi Kutemba yn ôl ar y llwybr drwy ei chyflwyno i Cyswllt Busnes a chanfod gweithdai hollbwysig iddi i ddangos y ffordd orau i gychwyn busnes.

Mae ei siop, Kutemba Market Enterprises, mewn uned wrth ochr busnesau bach eriall yng nghanol dinas Abertawe. Mae'n gwerthi siocled, offer pren, gemwaith ac yn ailgylchu ffonau symudol a chetris argraffwyr cyfrifiadur ar gyfer yr elusen Traidcraft.

"Maes o law rwy'n gobeitho ehangu'r busnes a threfnu tripiau dramor i gymunedau a gaiff eu helpu gan Masnach Deg. Byddwn yn cynghori unrhyw un mewn sefyllfa debyg i mi i ystyried sefydlu eu busnes eu hunain. Mae'n anodd ond yn werth chweil iawn."

Potentia - Astudiaeth Achos Anabledd Cymru

Mae Lisa wedi dioddef o gyfnodau o iselder ers ei hugeiniau cynnar. Oherwydd hyn, mae Lisa yn ei chael bron yn amhosibl i adael ei chartref ac nid yw wedi erioed wedi ymateb yn dda i'w meddyginiaeth. Mae difrifoldeb y cyfnodau hyn yn golygu ei bod yn amhosibl iddi ganfod gwaith traddodiadol gan nad oes unrhyw gyflogydd yn barod i roi'r hyblygrwydd y mae ei angen.

Arweiniodd problemau Lisa gyda'i thriniaeth feddygol hi i edrych tuag at feddyginiaeth amgen gan borthi diddordeb oedd ganddi eisoes. Cynyddodd ei diddordeb, gan arwain at iddi ddilyn hyfforddiant ffurfiol yn y therapïau holistig: Adweitheg, Reiki a Thylino Pen Indiaidd.

Sylweddolodd mewn fawr o dro fod ganddi gyfle i ddod yn fos arni'i hunan, gan drefnu ei busnes o amgylch ei anghenion. Cysylltiodd Lisa ag Enter Anbledd Cymru a chyfarfod Jon

Luxton, y Cynghorydd Cleientiaid yn ei hardal. Helpodd Jon Lisa i ganfod atebion i'r prif rwystrau yn ei hatal rhag gweithio: diffyg hunan-hyder, diffyg gwybodaeth ar hunan-gyflogaeth, materion cludiant a'r magl budd-daliadau.

Gyda'i gilydd fe aethant drwy syniadau busnes ac anghenion mynediad a phenderfynu ar y llwybr Ymarfer Menter. Cafodd grant o £500 gan Brocer Cymru a £300 gan y Canolfan Gwaith a Mwy i'w helpu gyda'i chostau busnes. Mae Lisa hefyd yn derbyn cefnogaeth barhaol gan Mynediad i Waith parthed ei chostau cludiant ychwanegol.

Ym mis Rhagfyr 2003, dros ddeng mlynedd o'r tro diwethaf iddi weithio, mae Lisa wedi agor ei busnes ei hun (Head over Heels.) Mae'n awr yn ymarfer Reiki o chlinig ei chyfaill yng Nghaerdydd ac Adweitheg o'i chlinig ym Merthyr. Mae Lisa yn ystyried ehangu drwy ddatblygu ei chlinig ei hun a datblygu ei gwaith mewn eraill.